Help i dystion

Gweithio gyda meddygon Gweithio dros gleifion

Cyngor Meddygol Cyffredinol

Gall y broses o roi tystiolaeth fod yn frawychus. Rydym yma i'ch cefnogi cyn, wrth ac ar ôl ichi roi tystiolaeth.

Cynnwys

Rhagarweiniad **02**
Cyn mynd i'r gwrandawiad **03**
Taith rithwir 04
Dyddiad y gwrandawiad 05
Help arall sydd ar gael 05
Siarad â rhywun ynghylch bod yn dyst 06
Cwrdd â'r meddyg rydych chi'n rhoi tystiolaeth yn ei erbyn 08
Pethau i'w cofio 08
Mynychu'r gwrandawiad **09**
Aros i roi tystiolaeth 09
Mynediad cyhoeddus i'r gwrandawiad 10
Cymorth i bobl anabl 10
Gofal plant 11
Pwy fydd yn y gwrandawiad? 11
Rhoi tystiolaeth **13**
Holi a chroesholi 13
Gohiriadau 14
Ar ôl rhoi tystiolaeth **15**
Hawlio treuliau 15
Rhoi adborth 16
Gwybodaeth ddefnyddiol **17**
Cyfarwyddiadau **20**

Rhagarweiniad

Mae rôl tyst mewn gwrandawiad yn hanfodol wrth roi disgrifiad uniongyrchol i dribiwnlys ymarferwyr meddygol o'r hyn sydd wedi digwydd er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniad ar achos.

Deallwn y gall y broses fod yn frawychus, felly rydym wedi datblygu'r llyfryn hwn i roi gwybod ichi am y cymorth sydd ar gael ichi cyn, wrth ac ar ôl ichi roi tystiolaeth.

Gall y wybodaeth hon fod ar gael mewn fformatau ac ieithoedd eraill. Gallwn drefnu i ddehonglydd fod yn bresennol hefyd os ydych chi'n teimlo'n fwy cyfforddus yn cyfathrebu mewn iaith arall. Er mwyn gofyn am hyn, siaradwch â'ch person cyswllt yn y CMC cyn gynted â phosibl.

Mae'r Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol (MPTS) yn rheoli holl wrandawiadau'r tribiwnlys ymarferwyr meddygol ar gyfer y Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC) yn ei ganolfan gwrandawiadau ym Manceinion.

Cyn mynd i'r gwrandawiad

Pan fydd honiad yn cael ei wneud am feddyg, mae'n rhaid inni benderfynu a ddylai'r achos fynd yn ei flaen i wrandawiad gerbron tribiwnlys ymarferwyr meddygol.

Os bydd meddyg yn dadlau'r honiadau, neu am ryw reswm arall bod yr achos yn cael ei glywed gan dribiwnlys, gellir galw tystion i roi tystiolaeth mewn gwrandawiad.

Efallai y gofynnir ichi siarad â chyfreithiwr y CMC ar wahanol agweddau ar yr achos.

Er mwyn profi'r honiadau, mae'n rhaid i'r CMC gasglu tystiolaeth i gefnogi ei achos. Bydd hyn yn cynnwys nifer o ddogfennau gan gynnwys adroddiadau, gohebiaeth a datganiadau ysgrifenedig gan dystion.

Hwyrach y gofynnir ichi siarad â chyfreithiwr y CMC ar wahanol agweddau ar yr achos. Bydd trefniadau'n cael eu gwneud ichi gyfarfod â'r cyfreithiwr, a fydd yn eich galluogi i ofyn unrhyw gwestiynau am y broses.

Weithiau, gall tystion gael trafferth cael eu cyflogwr eu gadael i fynychu'r gwrandawiad neu gallent fod yn amharod i fynychu. Oherwydd rôl allweddol tystion yn ein gwrandawiadau, sydd wedi'u dylunio i ddiogelu cleifion, gellir cyflwyno gwŷs ffurfiol ar dystion. Gofyniad cyfreithiol yw'r wŷs i dyst ymddangos mewn gwrandawiad, ac os bydd gwŷs yn cael ei hanwybyddu gall y tyst gael ei erlyn am ddirmyg.

Taith rithwir

Rydym wedi lansio taith rithwir ryngweithiol o'r ganolfan gwrandawiadau ar wefan MPTS – **www.mpts-uk.org/virtualhearingroom**. Mae hyn yn rhoi syniad i dystion o beth i ddisgwyl pan fyddant yn dod i roi tystiolaeth.

Mae'r daith rithwir yn eich caniatáu i edrych ar olygon 360° o'r dderbynfa, ystafelloedd gwrando ac ystafelloedd aros y meddyg a'r tystion yn y ganolfan gwrandawiadau ym Manceinion. Gall defnyddwyr glicio ar y bobl yn y ffotograffau i gael mwy o wybodaeth am rôl y gwahanol bobl sy'n bresennol yn ein gwrandawiadau. Cefnogir y nodwedd gan sylwebaeth glywedol.

Ewch i'n hystafell wrando ryngweithiol i ddarganfod beth i ddisgwyl pan fyddwch yn dod i roi tystiolaeth.

Dyddiad y gwrandawiad

Byddwn yn rhoi gwybod ichi cyn gynted ag y bydd dyddiad wedi'i gadarnhau, a byddwn yn gwneud trefniadau am unrhyw lety gwesty dros nos ac yn archebu tocynnau teithio ichi.

Byddwn yn cysylltu â chi i drafod dyddiad am y gwrandawiad a'ch argaeledd i ymddangos fel tyst. Lle bo'n bosibl, byddwn yn ceisio sicrhau bod dyddiad y gwrandawiad yn cyd-daro ag adeg y byddwch chi ar gael. Fodd bynnag, nid yw hyn yn bosibl bob amser gan fod nifer o ffactorau eraill a fydd yn effeithio ar y dyddiad, yn ogystal â nifer fawr o bobl eraill i ddarparu ar eu cyfer.

Rhowch wybod i'ch person cyswllt yn y CMC cyn gynted â phosibl am unrhyw ofynion teithio neu lety gwesty penodol allai fod gennych. Er enghraifft, os ydych chi'n defnyddio cadair olwyn, neu os oes gennych nam ar y golwg.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn gynted ag y bydd dyddiad wedi'i gadarnhau, a byddwn yn gwenud trefniadau am unrhyw lety gwesty dros nos ac yn archebu tocynnau teithio ichi.

Help arall sydd ar gael

Os oes gennych bryderon am roi tystiolaeth, codwch y rhain yn gynnar gyda'ch person cyswllt yn y CMC.

Hwyrach y bydd ffactorau a allai gwneud i roi tystiolaeth fod yn hynod anodd i rai tystion. Os oes gennych anabledd, salwch neu gyflwr, fel iselder neu bryder, anhawster dysgu, anabledd corfforol, neu os ydych chi'n cael trafferth mewn sefyllfaoedd cymdeithasol, gallai hyn effeithio ar sut rydych chi'n roi tystiolaeth gerbron tribiwnlys. Gallai'r ffordd rydych chi'n cyflwyno tystiolaeth gael ei heffeithio hefyd mewn sefyllfaoedd

lle mae'r honiadau o natur rywiol a chi yw'r dioddefwr honedig neu y teimlwch dan fygythiad oherwydd eich oedran, rhyw, hil, cefndir diwylliannol neu rywioldeb.

Os oes gennych bryderon am roi tystiolaeth, codwch y rhain yn gynnar gyda'ch person cyswllt yn y CMC. Byddant yn trafod eich amgylchiadau gyda chi ac yn rhoi gwybod i chi a ellir gwneud addasiadau i'ch cynorthwyo neu os gellir rhoi mesurau arbennig (e.e. sgriniau neu gyswllt fideo) ar waith i'ch helpu chi i roi tystiolaeth.

Siarad â rhywun ynghylch bod yn dyst

Gall bod yn dyst fod yn brofiad llawn straen i rai pobl. Os teimlwch yr hoffech gael cymorth, gallech ddymuno siarad â rhywun sy'n annibynnol ar y CMC ac MPTS.

Mae ein gwasanaeth i dystion yn cynnig cefnogaeth bwrpasol i bobl sydd wedi gwneud cwyn i'r CMC neu y gofynnwyd iddynt roi tystiolaeth i wrandawiad.

Gwasanaeth cyfrinachol ydyw a gaiff ei redeg gan wirfoddolwyr o'r elusen Victim Support.

Gallwch gael cymorth gan y gwasanaeth unrhyw bryd cyn, wrth neu ar ôl mynychu gwrandawiad.

Gall y gwasanaeth i dystion ddarparu:

- cymorth dros y ffôn
- ymweliadau â'r cartref neu gymorth wyneb yn wyneb yn eich cymuned leol

- cyfle i siarad â rhywun yn gyfrinachol ynghylch sut rydych chi'n teimlo
- help i ddeall beth sy'n digwydd yn ystod ymchwiliad i gŵyn am feddyg
- cyfle i ymweld â'r ganolfan gwrandawiadau cyn y diwrnod y mae disgwyl ichi roi tystiolaeth
- cefnogwr annibynnol a all ddod gyda chi ar y diwrnod a bod yn yr ystafell wrth ichi roi tystiolaeth i wrandawiad
- cymorth ymarferol i wneud yn siŵr bod CMC ac MPTS yn ymwybodol o unrhyw drefniadau y mae eu hangen i'ch galluogi chi i fynd i'r gwrandawiad ac i'ch helpu chi i lenwi'ch ffurflen hawlio treuliau
- cyfeirio at sefydliadau eraill a all ddarparu mwy o gymorth.

Mae'r gwasanaeth hwn am ddim, yn gyfrinachol ac yn annibynnol.

Cofiwch er bod gwirfoddolwyr ar gael i ddarparu cymorth emosiynol ac ymarferol, nid ydynt yn gymwys i ddarparu sesiwn gynghori proffesiynol na chyngor cyfreithiol. Nid oes ganddynt ychwaith yr hawl i drafod y dystiolaeth.

Cysylltwch â ni

Os hoffech ddefnyddio'r gwasanaeth hwn, gallwch ofyn i'ch cyfreithiwr wneud atgyfeiriad. Neu, gallwch gysylltu â rheolwr y gwasanaeth i dystion eich hun drwy ffonio 0161 200 1956 neu drwy anfon e-bost at witnesssupport@gmc-uk.org.

Cwrdd â'r meddyg rydych chi'n rhoi tystiolaeth yn ei erbyn

Os ydych chi'n poeni'n arbennig am gwrdd â'r meddyg neu unrhyw un arall sy'n rhan o'r achos pan ddewch chi i'r ganolfan gwrandawiadau, gallai fod yn bosibl i rywun gwrdd â chi a'ch hebrwng i ardal aros y tystion neu ystafell arall i ffwrdd o'r tystion eraill. Yn anffodus, nid oes modd sicrhau na fyddwch yn cwrdd â phobl eraill sy'n rhan o'r achos.

Pethau i'w cofio

Gwnewch yn siŵr fod gennych yr holl wybodaeth y mae arnoch ei hangen cyn diwrnod y gwrandawiad.

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod ble mae'r ganolfan gwrandawiadau – mae map ar dudalen 20 y llyfryn hwn.
- Ysgrifennwch unrhyw gwestiynau allai fod gennych am fod yn dyst ac os na fydd modd i chi weld yr atebion ar ein gwefan, gofynnwch i'ch person cyswllt yn CMC.
- Edrychwch ar amser y daith ac amserau gadael y trên neu'r awyren i wneud yn siŵr na fyddwch chi'n hwyr i'r gwrandawiad.
- Dewch â'ch datganiad tyst gyda chi i'w ddarllen, yn ogystal â llyfr neu ryw weithgaredd arall i'ch helpu chi i gadw'n brysur wrth ichi aros i roi tystiolaeth.
- Os byddwch yn rhoi tystiolaeth trwy gyfrwng fideo neu dros y ffôn, gwnewch yn siŵr bod gennych y manylion angenrheidiol ar gyfer hyn a bod modd i ni gysylltu â chi cyn yr amser y cytunwyd arno er mwyn i chi roi tystiolaeth.

Mynychu'r gwrandawiad

Ar ddiwrnod y gwrandawiad, dylech anelu at gyrraedd y ganolfan gwrandawiadau mewn da bryd ar gyfer dechrau'ch tystiolaeth.

Byddwch chi wedi cael amser i gyrraedd, ond sicrhewch eich bod yn ystyried unrhyw oedi posibl a allai ddigwydd ac anelwch at gyrraedd o leiaf hanner awr cyn yr amser a glustnodwyd i chi. Dewch i ddesg y dderbynfa yn y prif gyntedd. Bydd aelod o staff neu wirfoddolwr y gwasanaeth tystion yn cwrdd â chi, a fydd yn mynd â chi i ystafell aros y tystion.

Ceir peiriant diodydd poeth ac oer rhad ac am ddim a bydd dewis o bapurau newydd a chylchgronau ar gael yn ystafell aros y tystion.

Aros i roi tystiolaeth

Ni chaniateir i unrhyw dystion fod yn bresennol yn ystod y gwrandawiad cyn rhoi tystiolaeth.

Gofynnir ichi aros yn ystafell y tystion gyda'r tystion eraill hyd nes bod angen ichi roi tystiolaeth. Ni chaniateir i unrhyw dyst (ac eithrio tyst arbenigol) fod yn bresennol yn ystod y gwrandawiad cyn rhoi tystiolaeth. Wrth ichi aros i roi tystiolaeth, ni ddylech drafod yr achos na'ch tystiolaeth gydag unrhyw un arall, gan gynnwys tystion eraill, oherwydd gallai hyn niweidio'r achos.

Ymdrinnir â phob achos cyn gynted â phosibl, ond gall gwrandawiadau or-redeg weithiau a gallai fod yn ofynnol i dystion aros peth amser cyn gallu rhoi eu tystiolaeth. Os na allwch roi tystiolaeth ar y diwrnod a glustnodwyd oherwydd oedi neu newid mewn amgylchiadau, gofynnir ichi ddychwelyd ar ddiwrnod arall.

Mynediad cyhoeddus i'r gwrandawiad

Cynhelir y rhan fwyaf o wrandawiadau yn gyhoeddus. Bydd oriel gyhoeddus lle mae'r wasg a'r cyhoedd yn eistedd i wylio'r achos, fel rheol ar un pen ystafell y gwrandawiad. Weithiau, bydd y tribiwnlys yn gofyn i'r wasg, y cyhoedd a'r tystion adael y gwrandawiad os oes materion cyfrinachol i'w trafod. Os bydd hyn yn digwydd, byddwch yn cael eich tywys nôl i ystafell y tystion hyd nes i'r gwrandawiad ailddechrau.

Cymorth i bobl anabl

Mae gan y ganolfan gwrandawiadau fynediad i gadeiriau olwyn a system dolen clyw i bobl sydd wedi colli clyw. Os oes gennych anabledd, anawsterau cyfathrebu neu anghenion ychwanegol eraill, cysylltwch â ni cyn y gwrandawiad i sicrhau y gallwn wneud unrhyw drefniadau angenrheidiol ichi roi tystiolaeth.

Gallai'r trefniadau gynnwys darparu dehonglydd iaith arwyddion neu gymorth i dyst a chanddo nam ar y golwg fel darparu gwybodaeth mewn fformat arall neu gymorth gyda symud ar ddiwrnod y gwrandawiad.

Gofal plant

Peidiwch â dod â phlant i wrandawiadau os gallwch osgoi gwneud hynny. Mae ein polisi treuliau'n darparu gwybodaeth am hawlio ad-daliadau am drefniadau gofal, lle achoswyd y rhain o ganlyniad i roi tystiolaeth i wrandawiad.

Os nad oes gennych ddewis ar wahân i ddod â'ch plant gyda chi, allech chi sicrhau y bydd oedolyn gyda nhw drwy'r amser. Os ydych chi'n rhan o'r gwrandawiad, mae hyn yn golygu y bydd angen ichi ddod ag oedolyn arall i ddarparu gofal wrth ichi roi tystiolaeth. Cofiwch, er mwyn eu diogelwch eu hunain, rhaid peidio â gadael plant ar eu pennau eu hunain.

Yn anffodus, am resymau iechyd a diogelwch, ni all staff a gwirfoddolwyr y gwasanaeth tystion fod yn gyfrifol am unrhyw blant, hyd yn oed am gyfnodau byr.

Pwy fydd yn y gwrandawiad?

Bydd y cadeirydd yn sicrhau bod y gwrandawiad yn cael ei gynnal yn deg ac mae ganddynt ddyletswydd i ddiogelu buddiannau'r holl bobl sy'n rhan o'r achos gan gynnwys tystion.

Tribiwnlys MPTS ac aelodau'r tribiwnlys – mae'r tribiwnlys yn cynnwys meddygon (gyda chymwysterau meddygol) a phobl leyg (heb gymwysterau meddygol), sy'n adnabyddus fel aelodau'r tribiwnlys. Bydd un aelod o'r tribiwnlys yn gweithredu fel cadeirydd. Bydd y cadeirydd yn sicrhau bod y gwrandawiad yn cael ei gynnal yn deg ac mae ganddynt ddyletswydd i ddiogelu buddiannau'r holl bobl sy'n rhan o'r achos gan gynnwys tystion.

Aseswr cyfreithiol – bargyfreithiwr neu gyfreithiwr profiadol sy'n cynghori'r tribiwnlys am faterion cyfreithiol.

Swyddog cyflwyno CMC – y bargyfreithiwr neu'r cyfreithiwr sy'n cyflwyno'r achos yn erbyn y meddyg ar ran CMC. Bydd swyddog cyflwyno CMC yn gofyn cwestiynau i dyst am eu tystiolaeth.

Meddyg (neu feddygon) – y person (neu'r bobl) y gwnaed cyhuddiadau yn eu herbyn. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y meddyg yn cael eu cynrychioli gan fargyfreithiwr neu gyfreithiwr. O bryd i'w gilydd, ni fydd y meddyg yn cael eu cynrychioli a byddant yn cyflwyno eu hachos eu hunain.

Cynrychiolydd y meddyg – y person sy'n cyflwyno'r achos neu sy'n siarad ar ran y meddyg. Byddant yn cyflwyno sefyllfa'r meddyg i'r tribiwnlys. Byddant yn gofyn cwestiynau i'r tyst am eu tystiolaeth.

Ymgynghorydd iechyd neu berfformiad arbenigol – ymarferwyr meddygol cofrestredig y mae modd iddynt fod yn bresennol yn y gwrandawiad fel eithriad er mwyn cynghori'r tribiwnlys ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd meddyg neu eu perfformiad.

Ysgrifennydd y Tribiwnlys – aelod o staff MPTS sy'n gyfrifol am weinyddu'r gwrandawiad.

Rhoi tystiolaeth

Pan gewch eich galw i roi tystiolaeth, bydd aelod o staff MPTS yn mynd â chi i ystafell y gwrandawiad ac yn dangos i chi ble i eistedd.

Bydd aelod o staff yn gofyn ichi ydych chi'n dymuno tyngu llw crefyddol ar lyfr sanctaidd o'ch dewis chi, neu wneud cadarnhad o ran gwirionedd eich tystiolaeth. Yna, bydd cadeirydd y tribiwnlys yn cyflwyno'i hun a gweddill y tribiwnlys i chi. Wrth ateb cwestiynau, dylech siarad yn glir ac yn araf i mewn i'r microffon ar ddesg y tyst er mwyn i bob parti allu gwrando ar eich tystiolaeth.

Holi a chroesholi

Efallai na fydd modd i chi gael y datganiad tyst gyda chi pan fyddwch yn rhoi tystiolaeth, ond mae modd i chi ei ddarllen ymlaen llaw tra byddwch yn ystafell y tystion.

Bydd swyddog cyflwyno CMC yn gofyn i chi gadarnhau eich enw a bod cynnwys eich datganiad tyst yn wir.

Fel arfer, bydd y tribiwnlys wedi cael eich datganiad tyst ymlaen llaw, er mwyn iddynt ei ddarllen cyn y gwrandawiad. Efallai y bydd swyddog cyflwyno CMC yn gofyn cwestiynau i chi am eich datganiad tyst. Yna, bydd modd i'r meddyg neu gynrychiolydd y meddyg ofyn rhagor o gwestiynau i chi.

Mae modd i'r tribiwnlys ofyn cwestiynau i chi am eich datganiad tyst hefyd.

Pan fyddwch yn rhoi eich tystiolaeth, efallai y dangosir dogfennau eraill i chi, y mae swyddog cyflwyno CMC, y meddyg neu gynrychiolydd y meddyg wedi cyfeirio atynt. Dylech gymryd eich amser i ddarllen pob dogfen yn ofalus cyn ateb unrhyw gwestiynau.

Gohiriadau

Efallai y bydd angen gohirio gwrandawiad o bryd i'w gilydd, naill ai am ginio neu ar ddiwedd pob diwrnod os bydd y gwrandawiad yn para mwy na diwrnod.

Gallai'r tribiwnlys hefyd ohirio am gyfnod hwy i gael tystiolaeth ychwanegol, yn achos salwch, neu oherwydd bod yr achos wedi gor-redeg y diwrnodau sydd wedi'u clustnodi iddo.

Mae'n eithriadol o bwysig nodi bod rhaid i dystion beidio â siarad ag unrhyw un am yr achos nac am eu tystiolaeth yn ystod unrhyw ohiriad. Mae hyn yn cynnwys unrhyw un sy'n rhan o'r achos yn ogystal ag unrhyw ffrindiau neu deulu. Os na chadwch at y rheol hon, gallai fod canlyniadau difrifol i ganlyniad y gwrandawiad.

Ar ôl rhoi tystiolaeth

Ar ôl ichi orffen rhoi tystiolaeth, gallwch ddewis gadael, neu gallwch aros i wrando ar weddill gweithrediadau'r dydd. Os hoffech aros, bydd rhywun yn dangos ichi ble i eistedd.

Byddwch yn cael gwybod am ganlyniad y gwrandawiad ar ôl iddo orffen. Bydd amser hwn yn dibynnu ar hyd y gwrandawiad, ond yn gyffredinol anelwn at roi gwybod i bob parti ymhen pythefnos o ddiwedd y gwrandawiad.

Os na chlywch chi ddim byd, gofynnwch i'ch person cyswllt yn y CMC a fydd yn gallu rhoi gwybod ichi am gynnydd yr achos a'i ganlyniad os ydyw'n hysbys.

Mae MPTS yn cyhoeddi canlyniad yr achos ar ei wefan yn **www.mpts-uk.org/decisions** ar ddiwedd gwrandawiad. Gallwch hefyd ddod o hyd i fwy o wybodaeth am dribiwnlysoedd a'r mathau o benderfyniadau y gallant eu gwneud.

Hawlio treuliau

Byddwn yn anfon atoch fanylion ynghylch sut i hawlio treuliau allan o boced y gallai fod gennych hawl iddynt am y cyfnod o amser y mae'n ofynnol i chi fynychu er mwyn rhoi tystiolaeth. Os dewiswch fynychu'r gwrandawiad ar ddiwrnodau nad ydych yn rhoi tystiolaeth, byddwch yn talu'r costau hyn eich hun. Sylwch y byddwn yn talu treuliau i dystion y CMC yn unig.

Rhoi adborth

Mae CMC ac MPTS yn dymuno gwella'r gwasanaeth a ddarparwn a chroesawn unrhyw sylwadau a allai fod gennych yn dilyn eich profiad fel tyst.

Mae CMC ac MPTS yn dymuno gwella'r gwasanaeth a ddarparwn a chroesawn unrhyw sylwadau a allai fod gennych yn dilyn eich profiad fel tyst. Rhowch eich barn inni trwy lenwi'r ffurflen adborth i dystion, a gyflenwir gyda'r llyfryn hwn neu y gellir ei lawrlwytho o'n gwefan yn **www.gmc-uk.org/concerns/witnesses.asp**.

Gwybodaeth ddefnyddiol

Hwyrach fod rhai termau nad ydych yn gyfarwydd â nhw. Dyma restr o rai ohonyn nhw.

Addewid	ymrwymiad a roddwyd gan y meddyg i'r tribiwnlys i gyfyngu ar ei ymarfer.
Amod	cosb a osodir gan dribiwnlys ymarferwyr meddygol sy'n cyfyngu ar hawl meddyg i ymarfer am gyfnod o amser
Aseswr cyfreithiol	cyfreithiwr neu fargyfreithiwr profiadol sy'n rhoi cyngor i'r tribiwnlys.
Cadeirydd	y person sy'n rheoli'r tribiwnlys ymarferwyr meddygol. Mae'r cadeirydd yn aelod o'r tribiwnlys hefyd ac mae ganddo gyfrifoldeb am degwch yr achos.
Canfod diffyg	pan fydd y tribiwnlys wedi canfod ffeithiau, byddant yn ystyried ydy cymhwyster y meddyg i ymarfer yn ddiffygiol.
Canfod ffeithiau	ar ôl i'r tribiwnlys glywed y dystiolaeth i gyd, bydd yn penderfynu ydy'r ffeithiau honedig wedi'u profi. Adwaenir hyn fel penderfyniad canfod ffeithiau.
Cosb	penderfyniad y tribiwnlys sydd naill ai'n cyfyngu ar neu'n dileu hawl meddyg i ymarfer.
Croesholi	cael eu cwestiynu gan fargyfreithwyr a'r tribiwnlys wrth roi tystiolaeth.

Cyfyngiad	mesur sy'n atal y meddyg rhag cyflawni rhai swyddogaethau neu weithgareddau – er enghraifft, gallai'r meddyg gael ei atal rhag gweithio'n breifat.
Cymhwyster i ymarfer	gallu meddyg i gyflawni ei ddyletswyddau meddygol.
Dilead	cosb a osodwyd gan y tribiwnlys i dynnu enw'r meddyg o'r Gofrestr Feddygol. Mae hyn yn golygu na all y meddyg barhau i arfer meddygaeth.
Dim gweithred	mae'r tribiwnlys wedi dod i gasgliad ac wedi penderfynu peidio â gweithredu yn erbyn y meddyg.
Dirmyg	lle mae person yn dangos anufudd-dod penderfynol i, neu ddiffyg parch agored i lys neu wrandawiad. Mae hwn yn dramgwydd troseddol a all arwain at erlyniad.
Y Gofrestr Feddygol	y rhestr o feddygon sy'n gymwys i weithio yn y DU
Gohiriad	egwyl yn y gwrandawiad cyn i'r tribiwnlys gwblhau ei ystyriaethau. Bydd y gwrandawiad yn gohirio am ginio neu egwyliau byrion ac ar ddiwedd pob diwrnod, os bydd yr achos yn para mwy na diwrnod. Mae'n bosibl y cytunir ar ohiriad er mwyn cael tystiolaeth ychwanegol, yn achos salwch, neu os ydy'r gwrandawiad wedi gor-redeg.

Gwaharddiad dros dro	cosb a osodir gan banel sy'n dileu hawl y meddyg i ymarfer am gyfnod penodedig o amser.
Gwrandawiad	cyfarfod o'r tribiwnlys ymarferwyr meddygol a benodwyd i wrando ar achos.
Honiad	y cyhuddiad fod cymhwyster y meddyg i ymarfer yn ddiffygiol
Rhybudd	gallai rhybudd gael ei roi i feddyg os bydd tribiwnlys yn penderfynu y cafwyd gwyriad sylweddol o'r egwyddorion a osodwyd yn ein harweiniad i feddygon – *Arfer meddygol da* – ond nid oes angen cyfyngiad ar gofrestriad y meddyg.
Tribiwnlys	grŵp o aelodau tribiwnlys, sy'n cynnwys o leiaf un person meddygol ac un heb fod yn feddygol, a chadeirydd.
Tyst arbenigol	tyst a all roi barn ar unrhyw fater sy'n syrthio o fewn ei faes arbenigedd ar faterion a ystyrir gan y tribiwnlys.
Tystiolaeth	yr hyn y mae tyst yn ei ddweud yn y gwrandawiad a'r dystiolaeth ddogfennol gan gynnwys ffotograffau a ddeuir gerbron tribiwnlys.

Cyfarwyddiadau



Canolfan Gwrandawiadau MPTS

7fed Llawr, St James's Buildings,
79 Oxford Street,
Manceinion M1 6FQ

Ar agor

08.00–18.00 o
ddydd Llun i ddydd Gwener

Metrolink

Mae'r orsaf Metrolink agosaf yn St Peter's Square.

Trên

Mae'n cymryd deg munud i gerdded i'r adeilad o orsaf Piccadilly Manceinion. Neu, mae'r adeilad gyferbyn â gorsaf Oxford Road.

E-bost: **gmc@gmc-uk.org**
Gwefan: **www.gmc-uk.org**
Ffôn: **0161 923 6602**

Y Cyngor Meddygol Cyffredinol, 3 Hardman Street, Manceinion M3 3AW

E-bost: enquiries@mpts-uk.org
Gwefan: www.mpts-uk.org
Ffôn: 0161 923 6263

MPTS, Y Cyngor Meddygol Cyffredinol, 3 Hardman Street, Manceinion M3 3AW

Ffôn testun: **deialwch** y r**hifau cyntaf 18001** yna **0161 923 6602** er mwyn defnyddio'r gwasanaeth Trosglwyddo Testun

I ofyn am y cyhoeddiad hwn mewn iaith neu ffurf arall, ffoniwch ni ar **0161 923 6602**, neu anfonwch e-bost atom, at **publications@gmc-uk.org**.

Cyhoeddwyd ym mis Ebrill 2013
© 2013 Y Cyngor Meddygol Cyffredinol

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng os caiff ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod yn gamarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y CMC a nodi teitl y ddogfen.

Mae'r CMC yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1089278) a'r Alban (SC037750)

Cod: GMC/HW-W/1215

Cyngor Meddygol Cyffredinol